**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (102)**

**Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2004**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

..................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

..................................

## Eitem 3

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2186 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998:

1. Yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, neu sy'n dod o dan y ddeddf honno, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol:

Adran 1(3) - Trosglwyddo swyddogaethau'r Cynulliad
Adran 5 - Astudiaethau'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Adran 13 - Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru
Adran 14 - Penodi archwilwyr
Adran 37 - Archwiliadau Eithriadol

Atodlen 1 paragraff 9 - Archwiliadau ac Arolygiadau Gwerth Gorau
Atodlen 2 paragraff 41 - Ardystio datganiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

2. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

3. Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n briodol.

*Nid yw'r cynnig hwn yn dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad swyddogaethau a freinir yn uniongyrchol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad trwy neu o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) .*

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar y Rhyngrwyd trwy ddefnyddio'r cysylltiad isod:* http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040023.htm - *Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr*

Please click here for the Briefing Note in support of the Motion - *Dim copi Cymraeg ar gael*

**....................................**

## Eitem 4

**Dadl ar Adroddiad Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Addysg Arbennig**

**NDM2184 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.6 a 9.9 yn nodi adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r enw 'Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig - Rhan 1: Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at holl Aelodau'r Cynulliad ar 17 Tachwedd 2004.

Cliciwch yma i weld yr Adroddiad

**.....................................**

## Eitem 5

**Dadl ar Gynllun yr Ail Gynnig – Dim cynnig wedi'i gyflwyno**

**.....................................**

## Eitem 6

**Cynnig i drafod y Datganiad ar yr Amserlen Gyfnodol**

**NDM2185 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan reol sefydlog 5.1 yn nodi amserlen fusnes 6 mis arfaethedig y Cynulliad a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 17 Tachwedd 2004.

Cliciwch yma i weld yr amserlen - *Dim copi Cymraeg ar gael*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2)**

**Gwelliant 1 - Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Ar ôl 'Bod y Cynulliad Cenedlaethol', ychwanegu:

'yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2004 a '

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**Gwelliant 2**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
**David Melding (Canol De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Trefnydd i ddiwygio'r amserlen er mwyn sicrhau bod y pwyllgorau pwnc yn cyfarfod o leiaf unwaith bob pythefnos.

**.....................................**

## Eitem 7

**Dadl fer - NDM2183 Leanne Wood (Canol De Cymru):** www.impeachblair.org

**.......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**